

Cwestiynau Cyffredin – Amrywiad a Thrwydded Gyfunol Kronospan

Beth yw cyfarwyddiadau'r llywodraeth?

Mae'r gweithgareddau ar safle Kronospan sy'n cael eu rheoleiddio gan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016 wedi bod yn destun amrywiol gyfarwyddiadau gan y llywodraeth. Roedd y cyfarwyddyd cyntaf yn 2003 ac fe'i rhannodd y gwaith o reoleiddio'r safle rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (sydd bellach yn rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)).

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd pellach yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyfuno dwy drwydded y rheoleiddiwr yn un, ac yna cynnal yr holl swyddogaethau rheoleiddio yn y dyfodol mewn perthynas â'r drwydded honno. Bydd hyn yn ei hanfod yn 'normaleiddio' gwaith rheoleiddio ar y safle, yn yr ystyr y bydd yr holl weithgareddau perthnasol yn cael eu rheoleiddio gan un rheoleiddiwr amgylcheddol, sef CNC.

Ar ôl i'r drwydded gyfunol gael ei dyroddi, ni fydd y safle bellach yn destun Cyfarwyddyd Gweinidogol ac ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rheoleiddio gweithgareddau ar y safle mwyach.

Beth yw'r hysbysiad amrywio a'r drwydded gyfunol?

Rydym wedi penderfynu ar gais amrywio Kronospan ac wedi cymryd y ddwy drwydded gyfredol ar gyfer y safle a'u huno yn un drwydded ddrafft. Mae'r hysbysiad amrywio yn nodi'r gweithgareddau newydd a wnaed i'r trwyddedau gwreiddiol. Mae'r drwydded gyfunol yn drwydded gyfredol gyflawn ar gyfer yr holl weithgareddau a reoleiddir gan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar y safle.

Mae trwydded gyfredol Wrecsam CBSW/IPPC/03/KR(V3) yn cynnwys cynhyrchu byrddau gronynnau a byrddau ffeibr dwysedd canolig, dau safle biomas, melin lifio, a llinell lloriau laminedig, yn ogystal â pheth offer cynhyrchu gwres. Mae danfon deunyddiau crai, storio a thrin gwastraff, prosesu a storio yn weithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r drwydded.

Mae trwydded gyfredol CNC (EPR/BW9999IG) yn cwmpasu gweithgynhyrchu fformaldehid trwy ocsidiad catalytig methanol, gweithgynhyrchu fformaldehid wrea a resin fformaldehid wrea melamin, a gweithredu offer hylosgi sy'n rhedeg ar nwy naturiol. Mae proses trwytho papur VITS a gweithrediad lagwnau dŵr wyneb 1, 2 a 3 yn weithgareddau sy'n uniongyrchol gysylltiedig yn y drwydded.

Wrth gyfuno'r holl weithgareddau yn un drwydded, rydym wedi cynnal asesiad trylwyr i sicrhau bod amodau'r drwydded a'r terfynau allyriadau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, y Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol, a'r Technegau Gorau sydd ar Gael. Roedd hyn yn cynnwys archwiliad ac asesiad o adroddiad modelu gwasgariad aer cwbl gyfunol ar gyfer y safle cyfan, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offer a phrosesau ar y safle ers mis Hydref 2014, pan ddyroddwyd fersiwn gyfredol trwydded Cyngor Wrecsam.

Mae hyn yn darparu llinell sylfaen ar gyfer yr holl allyriadau i'r aer o'r safle ac mae wedi ein galluogi i gynnal asesiad iechyd dynol ac ecolegol llawn o ollyngiadau i'r aer. Esbonnir hyn ymhellach yn ein dogfen penderfyniad drafft.

Gellir gweld dogfennau'r drwydded ddrafft trwy [hwb ymgynghori ar-lein CNC](#), lle rydym wedi ei hychwanegu fel dogfen allweddol.

Pam y cymerodd gymaint o amser?

Ers derbyn cais Kronospan yn 2018 a dechrau ein penderfyniad manwl, rydym wedi gofyn am swm sylweddol o wybodaeth bellach gan Kronospan Ltd i'n helpu i gynnal ein hasesiadau a sicrhau y byddant yn cydymffurfio â'r Technegau Gorau sydd ar Gael.

Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am strwythur eu cwmni, gweithgareddau amrywiol, gweithdrefnau gweithredu, allyriadau, a phwyntiau allyriadau. Cododd mwy o geisiadau am wybodaeth fanwl wrth i ni gael gwell dealltwriaeth o'r gweithgareddau presennol, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offer a phrosesau ar y safle ers mis Hydref 2014.

Roedd gennym ddyletswydd i sicrhau ein bod yn cynnal asesiad cyflawn a thrylwyr o'r holl weithgareddau cyfredol ar y safle cyn cwblhau ein penderfyniad, er mwyn sicrhau bod penderfyniad cyfreithiol cadarn yn cael ei wneud, cyn i CNC ymgymryd â rheoleiddio amgylcheddol cyffredinol ar y safle.

A yw storio deunydd crai yn peri risg tân yn y dyfodol?

Rydym wedi asesu Cynllun Atal a Lliniaru Tân Kronospan ar gyfer yr iard storio boncyffion yn llawn yn ystod ein penderfyniad ac rydym wedi ymgynghori â'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae ymateb y gwasanaeth hwn yn cael ei gadw ar ein [cofrestr gyhoeddus ar-lein](#) a gellir ei weld trwy [hwb ymgynghori ar-lein CNC](#), lle rydym wedi ei hychwanegu fel dogfen allweddol. Rydym wedi mewnosod nifer o amodau gwella yn y drwydded ddrafft y bydd yn rhaid i Kronospan Ltd gydymffurfio â nhw.

Pam na chafodd y cynnig ar gyfer llinell cynhyrchu byrddau llinyn cyfeiriedig newydd ei gynnwys yn y penderfyniad a'r drwydded gyfunol?

Cafodd cynnig ar gyfer llinell cynhyrchu byrddau llinyn cyfeiriedig newydd ei gynnwys yng nghais gwreiddiol Kronospan. Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19, nid oeddent yn gallu monitro sŵn cefndir cynrychioliadol o amgylch y safle i gefnogi eu cais ac felly tynnwyd hyn o'r penderfyniad.

Rydym wedi gofyn i Kronospan Ltd gyflwyno cais amrywio newydd ar gyfer eu cynigion wedi'u diweddarau ar gyfer llinell cynhyrchu byrddau llinyn cyfeiriedig newydd. Byddwn yn penderfynu ar y cais amrywio hwn yn unol â'n proses arferol, sy'n cynnwys hysbysebu ac ymgynghori.

Sut gallaf gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn?

Trwy [hwb ymgynghori](#) ar-lein CNC, gallwch weld y drwydded gyfunol ddrafft a'r ddogfen penderfyniad ar-lein a chyflwyno'ch sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r hwb ymgynghori ar agor am gyfnod o bedair wythnos, o 16 Mehefin tan 17 Gorffennaf.

Sut ydych chi wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad?

Rydym wedi darparu datganiad i'r wasg leol i hysbysu'r cyhoedd o'r ymgynghoriad a sut y gallant ymateb. Rydym hefyd wedi hysbysu gwleidyddion lleol am yr ymgynghoriad.

Rydym wedi cyhoeddi postiau ar y cyfryngau cymdeithasol yn hysbysu'r cyhoedd am yr ymgynghoriad a sut i ymateb ac wedi hysbysebu'r ymgynghoriad ar ein gwefan.

Dengys profiad blaenorol mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o hysbysu'r gymuned leol.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein [datganiad cyfranogiad y cyhoedd](#), sy'n esbonio pam a sut rydym yn ymgynghori ar ein penderfyniadau trwyddedu drafft.

Beth sy'n digwydd yn ystod ac ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben?

Rydym wedi gosod y drwydded gyfunol ddrafft a'r ddogfen penderfyniad ar ein cofrestr gyhoeddus ac rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros bedair wythnos er mwyn i bobl adolygu a gwneud sylwadau ar y dogfennau, cyflwyno unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw o bosibl wedi'i hystyried, a herio unrhyw ddiffygion.

Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a gwybodaeth berthnasol. Gallwch ddarganfod mwy am yr hyn sy'n berthnasol yn ein proses gwneud penderfyniadau yn ein [datganiad cyfranogiad y cyhoedd](#). Byddwn yn esbonio sut rydym wedi ystyried yr holl sylwadau yn ein dogfen penderfyniad. Ni fyddwn yn cwblhau ac yn dyroddi'r drwydded gyfunol nes bod y broses ymgynghori hon wedi'i chwblhau.

Ble gallaf ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y cais?

Gallwch gyrchu'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais trwy ein [cofrestr gyhoeddus ar-lein](#). Rhif y drwydded bresennol yw BW9999IG/V008 a rhif y cais yw PAN-002755.

Gellir gweld y dogfennau allweddol trwy [hwb ymgynghori](#) ar-lein CNC.

Pam na allaf gael mynediad at rai dogfennau o'r gofrestr gyhoeddus ar-lein?

Efallai y bydd angen i chi lawrlwytho cymwysiadau meddalwedd i weld rhai dogfennau ar ein system ar-lein, er enghraifft, os nad yw eich system e-bost yn gydnaws ag Outlook.

Os nad ydych am wneud hyn, neu os oes angen dogfen arnoch mewn fformat gwahanol neu fwy hygyrch, cysylltwch â ni drwy enquiries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Gall hyn gymryd amser i'w brosesu ac mae'n bosib y codir tâl.

Pa sefydliadau rydych chi wedi ymgynghori â nhw?

Drwy gydol ein proses hir o wneud penderfyniad, buom yn ymgynghori â'r sefydliadau canlynol o leiaf unwaith:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (Adrannau Cynllunio a Diogelu'r Amgylchedd)
- Glandŵr Cymru
- Dŵr Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd

Negeseuon Allweddol

- Rydym wedi cynnal asesiad helaeth a thrylwyr o weithgareddau ar y safle, i sicrhau bod amodau'r drwydded a'r terfynau allyriadau yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol, a'r Technegau Gorau sydd ar Gael.
- Mae'r drwydded gyfunol yn gosod terfynau llymach newydd a safonau amgylcheddol uwch oherwydd y Technegau Gorau sydd ar Gael ar gyfer paneli pren a'n hasesiadau.
- Gwnaethom ofyn am fodel gwasgariad aer cwbl gyfunol ar gyfer y safle cyfan ac rydym wedi cynnal archwiliad ac asesiad manwl o'r gwaith modelu hwn. Mae hyn yn darparu llinell sylfaen ar gyfer yr holl allyriadau aer o'r safle ac mae wedi ein galluogi i gynnal asesiad iechyd dynol ac ecolegol llawn.
- Mae'r drwydded gyfunol yn llinell sylfaen ar gyfer gwelliannau i'r safle yn y dyfodol.
- Cyn y byddwn yn caniatáu unrhyw weithgareddau arfaethedig newydd o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar y safle, bydd yn ofynnol i'r gweithredwr wneud cais i CNC am amrywiad i drwydded sy'n nodi ei gynigion.